# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## RHAGLEN CYFARFOD MAI 2023

| | |
|---|---|
| **MATH O GYFARFOD** | **Cyfarfod Misol** |
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 24 o Fai, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Capel Rhostryfan** |
| **CADEIRYDD** | **Arwyn Herald Roberts** |

**1. CROESO**

Penderfynwyd yn ystod y Cyfarfod Blynyddol I gyfethol Arwyn Herald Roberts fel Cadeirydd am gyfnod 2023 – 24.
Diolchodd AHR I bawb am yr enwebiad a chroesawodd pawb i'r cyfarfod. Diolchodd I MW am ei ymdrechion am y flwyddyn ddiwethaf a cynigiodd groeso arbennig I Nia Gruffydd gafwyd ei chyfethol i gynrychioli ward Dinas.

**Yn bresennol heno roedd:**
Michelle Williams **(MW);** Jason Hunt **(JH);** Gwilym Williams **(GLW)**; Gwilym Thomas **(GVT)**; Cyng. Huw Rowlands **(HR)**; Cyng. Arwyn Herald Roberts **(AHR);** Tom Ellis **(TE)**; Adam Summers **(AS);** Nia Griffiths **(NG)** ac Gillian Thomas **(y Clerc).**

**2. YMDDIHEURIADAU**

**Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:**
Nerys Evans **(NE);** Dafydd Wyn Jones **(DWJ);**

**3. DATGAN BUDDIANT**

JH ac AS ar bwynt 6 h) – nid oedd y buddiannau yn rhagfarnu a Gwaith y Cyngor

**4. CADARNHAU COFNODION EBRILL 2023 A MATERION YN CODI**

Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan GVT gydag HR yn eilio a phawb yn cytuno

**a) GVT – LLIFOGYDD YN RHEDEG O GAE TŶ HEN AR Y GYFFORDD YN RHOSGADFAN**
Adroddodd AHR bod y gwaith bellach wedi ei gyflawni. Bydd Cyngor Gwynedd yn cadw llygaid ar y sefyllfa.

**b) MW - BINNAU GRAENU BRO CADFAN**
Adroddodd AHR nad oedd y gwaith wedi ei gyflawni hyd yn hyn, bydd yn cadw'r mater yn gyfredol gyda'r Cyngor Sir.

**c) MEINCIAU GLAN RHYD A SGWÂR RHOSTRYFAN**
Adroddodd AMJ mlaen llaw'r cyfarfod nid oedd Grŵp Dinas wedi cytuno i baratoi'r gwaith - y clerc i wneud ymholiadau gyda chwmnïau eraill. HR i dynnu lluniau erbyn cyfarfod nesaf.

**d) TWLL AR Y FFORDD GER TYDDYN BERTH, RHOSTRYFAN**
Adroddwyd i'r Cyngor Sir –y gwaith wedi ei gyflawni.

**e) TWLL AR Y FFORDD GER GIÂT GADLYS RHOSTRYFAN**
Adroddwyd i'r Cyngor Sir, y gwaith wedi ei gyflawni.

**f) GW – RHWYSTRAU AR LWYBR CYHOEDDUS O FRYN BACH I FRITHDIR RHOSGADFAN**
Adroddwyd i'r Cyngor Sir, nid oedd gohebiaeth wedi ei dderbyn.

*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP*
*Ffon / Tel: 07979 438 307*
*E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| | |
|---|---|
| **5.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **RHIF CAIS/APP REF: C23/0308/24/DT - RHOSLAN, RHOSGADFAN, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7HE**<br>**DILYN A DARGANFOD**<br><br>**DISODLI FFENESTR "VELUX" GYDA FFENESTR GROMEN**<br><br>Dim gwrthwynebiad |
| **6.** | **MATERION MISOL** |
| | **a) DIFFYGION I LWYBRAU CERDDED YN RHOSGADFAN / CAE MAGW**<br>AHR - Gwaith ffensio wedi ei gynnal yn ddiweddar yng Nghae Magw ar y llwybr cyhoeddus - llwybrau angen eu torri. Bydd y gwaith yn cael ei gynnal yn unol â chontract y llwybrau.<br><br>**b) AHR - ABER ALAW A THAI FFRIDD**<br>Gofynnodd AHR am gefnogaeth yr aelodau parthed damweiniau oherwydd craig ger Aber Alaw yn Rhosgadfan.<br>Roedd AHR wedi gofyn am ddarpariaeth o arwydd 'Give Way' gan Gyngor Gwynedd - Bydd asesiad ar bosibilrwydd i dorri neu dynnu'r garreg fawr sydd yn creu trafferthion. Bydd wedi derbyn adroddiad i'w gynnig erbyn y cyfarfod nesaf. Cytunodd yr aelodau mewn egwyddor. Rhannodd GVT bryderon bydd dad leoli'r garreg un creu mwy o broblemau gôr yrru.<br><br>**c) DYFARNIAD LLWYBR WAEN BANT**<br>Adroddodd y clerc am ohebiaeth oedd wedi ei dderbyn gan Adran Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn adrodd bod y llwybr bellach yn cael ei gydnabod.<br>Derbyniwyd cynnig gan NE mlaen llaw'r cyfarfod -<br>"Gan fod llwybr Waen Bant bellach wedi ei gydnabod mae angen gwneud rhywbeth am y camfeydd sydd arno. Maen nhw ychydig yn beryglus" - Y clerc i weithredu<br><br>**d) SESIWN YMGYSYLLTU AR DDYFODOL YSGOL FELINWNDA**<br>Hysbyseb wedi ei osod ar dudalen Facebook y Cyngor.<br>Roedd yr aelodau yn siomedig iawn nad oedd Cyngor Gwynedd wedi ymdrechu i hysbysebu ar wefan y Cyngor Sir.<br>Rhagdybiodd yr aelodau Lleol, wrth gysidro ystadegau ar niferoedd y disgyblion presennol a cheisiadau ar gyfer ymuno yn y flwyddyn i ddod mai pur debyg bydd y Cabinet yn penderfynu i gau'r Ysgol ar y 31 Rhagfyr 2023.<br>Cytunodd yr aelodau er nad oes bwriad ar y foment bydd rhaid bod yn wyliadwrus ac ymdrechu i warchod Ysgol Rhosgadfan a Rhostryfan.<br><br>**e) CAEAU CHWARAE**<br>Adroddodd y clerc bydd yr asesiad diogelwch yn cael ei gynnal fis Mehefin<br><br>**f) MYNWENT CEFNFAES – ESTYNIAD – GORFFWYSLE'R PLANT – PLAC**<br>Cytunodd yr aelodau dderbyn dyfynbris Cwmni Cefn Gwlad am ffens fetal, meter o uchder o amgylch gorffwysle'r plant, gofynnodd yr aelodau am liw gwyn yn hytrach nac du.<br>Gan mai dim ond un dyfynbris oedd wedi ei dderbyn am y gwaith ffensio o amgylch estyniad cefn y fynwent cytunwyd disgwyl am fis cyn penderfynu.<br>Roedd y clerc wedi methu a chael pris am blac llechan hyd nes bod y Cyngor yn cytuno ar yr union gyfarwyddiadau. Roedd NE wedi cynnig blaen llaw'r cyfarfod yn cynnig:<br>"I gofio am y babanod sydd wedi eu claddu yn y fan yma"<br>Roedd hefyd wedi argymell rhoi llun o dedi neu degan wrth ochor y geiriau.<br>Cytunodd yr aelodau – y clerc i weithredu |

**g) LLWYBR BRYNGWYN - POSTIA'U WEDI PYDRU**

Derbyniwyd gohebiaeth gan un o drigolion Rhostryfan yn adrodd bod 9 o bostiau wedi pydru a phostyn mawr y giât ar Lwybr Bryngwyn ger Rhandir Mwyn yn Rhostryfan. Roedd wedi trwsio'r postyn mawr dros dro -
Y clerc i ofyn am ddyfynbrisiau

**h) CEISIADAU AM NAWDD – CYLCH RHOSTRYFAN**

Cynigiodd MW ac eiliodd NG gefnogi eu cais am £350.00, cytunodd pawb .

**i) PERFFORMIAD Y CLERC**

Cytunwyd i ychwanegu hon yn eitem flynyddol ym mis Mai fel Gwerthuso, y clerc ac MW i drafod yn ystod y mis.

**j) HYFFORDDIANT**

Cytunwyd ei drafod mewn cyfarfod neilltuol

**k) TAI TEG – CYNG. JINA GWYRFAI**

Adroddodd HR am gais gan y Cyng. Jina Griffith ward yr Eifl am gefnogaeth parthed cynnig i Dai Teg sef:

'Ar hyn o bryd mae rheolau Tai Teg yn lladd cymunedau gwledig drwy fod yn rhy gaeth, gan atal pobl leol rhag adeiladu yn eu bro ac yn enwedig adeiladu ar dir sydd ym mherchnogaeth eu teulu. Galwn ar 'Tai Teg' a Chyngor Gwynedd i:

i. Ystwytho rheolau caeth Tai Teg i fod er lles pobl leol a llesiant cymunedau gwledig.
ii. Newid eu rheolau fel eu bod yn ymdebygu i reolau'r cynllun arloesol 'Hunanadeiladu Cymru' ac yn ystyried ceisiadau adeiladu tai fforddiadwy gan ymgeiswyr sydd ag eiddo yn eu perchnogaeth.'

Yn dilyn trafodaeth cytunodd yr aelodau yrru'r ymateb canlynol:

> Er bod y cyngor cymuned yn cytuno efo egwyddorion y cais, ein teimlad yw mai problem sy'n deillio o reolau a'r weithdrefn gynllunio yng Nghymru yw hyn , yn hytrach na phroblem sy'n ymwneud â Thai Teg eu hunain. Gweithredu yn unol â rheolau a'r gweithdrefnau sydd ar waith mae Tai Teg. Felly nid y nhw, ond yn hytrach y system gynllunio sy'n rhwystr i Dai Teg fedru ystyried ceisiadau am adeiladu tai fforddiadwy gan ymgeiswyr sydd ag eiddo yn eu perchnogaeth.
> Yn yr un ffordd, gweinyddu'r system gynllunio sy'n bodoli mae Cyngor Gwynedd.
>
> Argymell - dylid cynnig fod y weithdrefn gynllunio sydd o fewn pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru yn cael ei newid.
>
> Bydd Cyngor Cymuned Llanwnda yn cytuno efo cynnig ble mae'r geiriad yn adlewyrchu hyn.

**l) DIFFYGION DARPARIAETH HYFFORDDIANT YN Y GYMRAEG I GYNGHORAU CYMUNED**

Yn dilyn cyfarfod fis Ebrill derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Cymuned Pistyll yn adrodd gohebiaeth oedd wedi ei yrru a'i dderbyn gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg parthed cwyn a chais am gefnogaeth gan y Cyngor I ymwneud a diffyg hyfforddiant Gymraeg sydd yn cael ei gynnig gan Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru ar gyfer Cynghorau Cymuned.
I berwyl hyn nid oedd y clerc wedi llythyru ymhellach a'r Comisiynydd gan eu bod wedi rhestru rhesymau pam na allant gynnig cymorth ar y mater.
Erbyn hyn roedd y clerc wedi derbyn gohebiaeth bellach yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor ac eilio cynnig gan Gyngor Cymuned Pistyll I gyfarfod blynyddol Un Llais Cymru yn galw arnynt i sicrhau cyfle cyfartal trwy ddarparu ystod lawn o fodylau hyfforddiant i Gynghorwyr trwy'r iaith Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

Pleidleisiodd yr aelodau i gefnogi'r Cyngor ac eilio'r cynnig.

**m) CYNIGION AR GYFER CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2023 UN LLAIS CYMRU**

Gweler 6(l)

| | |
|---|---|
| **7.** | **ADRODDIADAU** |

**a) CYNGHORYDD HUW ROWLANDS**

- Adroddodd bod y Cyngor Sir yn hyderus i dderbyn grant am 50 mil tuag at Lon Eifion – roeddent wedi gofyn iddo am argymhellion parthed bioamrywiaeth
  Cynigiodd NG bydd placiau bach pob hyn a hyn yn enwi'r blodau gwyllt yn ddeniadol
- Rannodd wybodaeth am Gyfarfod gyda'r Eisteddfod Genedlaethol a'u bwriad i gynnig tocynnau am ddim i blant difreintiedig.
- Tasglu i drafod hen ffordd osgoi o Gaernarfon I Lanwnda
  Cwyno wedi bod Ffrwd Cau Du - cludiant am ddim i blant i'r Ysgol os ydi'r llwybr yn beryg

**b) CYNGHORYDD ARWYN HERALD ROBERTS**

- Adroddodd bod y Tîm tacluso wedi cychwyn yn Rhosgadfan, y Clwb a'r pentref wedi derbyn ei gwasanaethau a'r graffiti yn y cysodfannau wedi ei glanhau. Byddent yn parhau i weithio yn y gymuned am yr wythnos i ddod.
- Clwb Mountain Rangers pnawn dydd Sadwrn gwobruo'r plant
  Tîm dan 6 flwyddyn nesaf a thîm merched
- Roedd yn falch i gyhoeddi bod panad a sgwrs a gynhaliwyd yng Nghae gors wedi bod yn llwyddiannus.
- Wedi bod yn cyfarfod Ardal Ni neithiwr a llawer o wybodaeth wedi ei dderbyn parthed grantiau

Cytunodd i wneud ymholiadau i atgyweirio'r twmpathau cyflymder yn yr ardal

| | |
|---|---|
| **8.** | **MATERION ARIANNOL** |

**a) CYSONIAD**

Cymeradwywyd y Cysoniad gyda MW yn cynnig ei gywirdeb, TE yn eilio a phawb yn cytuno

**b) DATGANIADAU'R BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 29 o Fawrth i 28 o Ebrill 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £10,620.60 |
| Derbyniadau | + | £15,000.00 |
| Gwariant | - | £8,063.68 |
| Balans Cau | = | **£63,581.85** |

**CYFRIF CADW - 28 o Fawrth i 28 o Ebrill 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £63,343.87 |
| Derbyniadau | + | £0.00 |
| Gwariant | - | £0.00 |
| Balans Cau | = | **£17,556.92** |

**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS AR Y DATGANIADAU**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.04.23 | Ysgol Rhosgadfan | **101695** | £1,000.00 |
| 19.04.23 | Cylch Meithrin, Llanwnda | **101696** | £300.00 |
| 19.04.23 | CPDMR | **101697** | £2,000.00 |
| 19.04.23 | Dawns I Bawb | **101698** | £300.00 |
| 19.04.23 | Theatr Bara Caws | **101699** | £300.00 |
| 19.04.23 | Papur Bro Lleu | **101700** | £400.00 |
| 19.04.23 | Clwb Henoed Llanwnda | **101703** | £200.00 |
| 19.04.23 | TCDLL | **101704** | £100.00 |
| | | **=** | **£4,600.00** |

**LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO 15.03.23**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24.05.23 | Cyflog a Threuliau Clerc | **101705** | £656.50 |

**CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** **=** **£75,882.27**

## 9. GOHEBIAETH

**a) CYNLLUN GRANT CAM 3 RHAGLEN GYDWEITHREDU CYMRU AR ASEDAU (ACPW3) LLYWODRAETH CYMRU**

Bydd cynllun grant ACPW3 yn para o 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 ac yn cynnig grantiau o rhwng £10,000 a £75,000 o refeniw a hyd at £250,000 o gyfalaf i sefydliadau'r sector cyhoeddus i gefnogi prosiectau cydweithredol.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu

**b) CAIS GAN BLYTHE GARAGE I HYSBYSEBU EI DIFFIBLWR AR DUDALEN FACEBOOK Y CYNGOR**

Cytunodd yr aelodau

**c) LLYWODRAETH CYMRU - AROLWG AR EFEILLIO (dyddiad cau, sef 16 Mehefin 2023.)**

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu

**d) DIGWYDDIAD 'ARDAL NI 2035' DALGYLCH NANTLLE LLEU**

Gwahoddiad i ail ddigwyddiad 'Ardal Ni 2035' Dalgylch Nantlle Lleu, sydd i'w gynnal ar 23ain o Fai rhwng 6.00y.h. ac 8.00 y.h. yn Neuadd Goffa Penygroes.

Gweler 7 b)

**e) ARWEINIAD CYNGHORYDD DA AR GYFLOGAETH**

Rhannwyd blaen llaw gyda'r aelodau er gwybodaeth

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu

**f) TAI TEG – CYNG. JINA GWYRFAI**

Gweler 6(k)

**g) DYFARNIAD LLWYBR WAEN BANT**

Gweler 6(c)

**h) CYNIGION AR GYFER CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2023 UN LLAIS CYMRU**

Gweler 6 (l)

**i) DIFFYGION DARPARIAETH HYFFORDDIANT YN Y GYMRAEG I GYNGHORAU CYMUNED**

Gweler 6 (l)

| | |
|---|---|
| **10.** | **MATERION LLEOL / AELODAU** |
| **11.** | **a)** **<u>MW – HYSBYSFWRDD RHOSISAF</u>**<br>Adroddodd MW ei bod wedi derbyn gohebiaeth gan Mr. Jones yn adrodd fod ei salwch wedi gwaethygu. I berwyl hyn nid oedd yn teimlo y buasai ddigon tebol i fwrw malen gyda pharatoi'r gwaith ar hysbysfwrdd Rhos isaf. Rhoddodd wybod buasai'n falch i barhau i gynnal gwaith ar y fainc ym Mynwent Cefnfaes.<br>Y clerc i ofyn i Gwmni Cefn Gwlad am bris<br><br>**b)** **<u>NE – CROCHWYN SIAPANIAIDD</u>**<br>Derbyniwyd gohebiaeth gan NE yn adrodd bod crog chwyn siapaniaidd wedi cychwyn tyfu yn gyflym iawn ar ochor y ffordd rhwng giât Penisarhos a Mynwent Cefnfaes.<br>Y clerc i adrodd I Gyngor Gwynedd<br><br>**c)** **<u>JH – TWLL GER CAE HELYGEN RHOSTRYFAN</u>**<br>Y clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd<br><br>**d)** **<u>TE – SAFLE BWS LLANWNDA</u>**<br>Roedd y clerc wedi gyrru yn flaenorol i'r Cyngor Sir a heb dderbyn ymateb -<br>Holi pwy syn gyfrifol am leoli cysgodfa newydd. |
| **12.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| **13.** | 21ain o Fehefin am 7y.h yng Nghanolfan Kate Roberts<br><br>• JH lein Bryn Gwyn - Rhwng Tyddyn Canol a Rhandir Mwyn - wyneb wedi gwisgo a dŵr yn sefyll<br>• Tendro Gwaith I estyniad y fynwent<br>• Harddu gyda blodau gwyllt mewn mannau gwyrdd |

*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP*
*Ffon / Tel: 07979 438 307*
*E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*